

Uchafbwyntiau Canolfan Ffilm Cymru 23/24



Delwedd: Cardiff Animation Festival 2023 (© James Photography)

Mae 2023/24 wedi bod yn flwyddyn brysur arall, o deithio ffilmiau byr animeiddiedig, i ffilmiau teulu am ddim a hyd yn oed glasur gwaed o'r 90au mewn clwb nos. I'r rhan fwyaf ohonoch chi, mae'r ffocws wedi bod yn mynd yn ôl i fusnes rhaglennu ffilmiau ac arwain sesiynau cymunedol lleol, lle gallech ddod i adnabod eich cynulleidfaoedd. Gadewch i ni edrych ar rai o'r pethau a ddigwyddodd yn ystod 2023/24.

Cynnwys

Aelodau

3

Cyllid Arddangosfa Ffilm

4

Ffilmiau

5

Gwnaethpwyd yng Nghymru

7

Sylw Aelodau

8

Cefnogaeth Aelodau

10



Aelodau



**295 o
arddangos
wyr o
Gymru**



**197 o
aelodau***



**22 aelod
newydd**
gan gynnwys Gŵyl
Cyfryngau Celtaidd,
YMa a Sinema
Gymunedol
Llanymddyfri. Croeso!



**Roedd 15 o bob 16
aelod o'r Ganolfan
yn 'fodlon iawn'
gyda chefnogaeth
y Ganolfan
(1 fodlon)**

Fe wnaeth WOW24 gyflwyno 45 dangosiad o sinema'r byd gorau yn Aberystwyth, Bangor, Aberteifi, Abergwaun ac Abertawe gyda sesiwn holi ac ateb a thrafodaethau panel. Roedd digwyddiadau arbennig yn cynnwys AberCon, confensiwn anime WOW a drefnwyd mewn partneriaeth â Mencap Ceredigion a phecyn o ffilmiau o Colombia ar gyfer digwyddiad 'Creu Gofod Mwy Diogel' gyda siaradwyr gwadd, mewn partneriaeth â'r adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Fe wnaethant hefyd redeg 'Ecosinema', gan arwain gyda'r thema 'Another World Is Possible,' a oedd yn cynnwys Climate Stories from Bangladesh (a gynhyrchwyd gan WOW) ynghyd â sesiwn holi ac ateb, trafodaethau panel a digwyddiad mewn partneriaeth â'r Gynghrair Gweithwyr Tir.

Edrychwch ar eu hastudiaeth achos 2023 yma.

Member Spotlight

* Fe wnaeth 20 o sinemâu a gwyliau cymunedol ddod â gweithgareddau sgrinio i ben.

Cyllid Arddangosfa Ffilm

Tua
£126,000
wedi'i
ddyfarnu i 25
o brosiectau

**1 Rhwydwaith,
1 Archif**

**15 FT /
Defnydd
cymysg /
Sinemâu
Cymunedol**

**Gweithgared
d ar draws
39 lleoliad
unigol**

**8
Gwyliau**



- Abergavenny Film Society
- Abertoir International Horror Festival
- Cardiff Animation Festival
- Gwallgofiaid CYF (Cellb)
- Theatr Gwaun Community Trust
- Hay Castle

- Kotatsu Japanese Animation Festival
- Magic Lantern
- WOW Festival
- Wyeside Arts Centre
- Dragon Theatre
- Iris Prize LGBT1+ Festival
- Wicked Wales Film Festival
- Merthyr Leisure Trust

- Memo Arts Centre
- Neuadd Dwyfor Arts Centre
- Phantasmagoria Horror Film Festival
- Phantasmagoria Cinema Crypt
- Sinemaes
- Made in Wales

Ffilmiau

34,473 o dderbyniadau corfforol
(40,797 y llynedd)

1751 o dderbyniadau ar-lein
(4686 y llynedd)

571 ffilm
(632 y llynedd)

Roedd 79% o'r dangosiadau ffilm yn annibynnol neu'n rhyngwladol ym Mhrydain

Cwblhaodd 2% o'ch cynulleidfaoedd arolygon cynulleidfa BFI FAN. Dyma'r ciplun o'r sampl:

**2% -
25 oed ac
iau**

**9%
LGBTQIA+**

**33%
D/byddar
a/neu
anabl**

**64%
Menyw**

**4%
Mwyafrif
Du a Byd-
eang**

**6%
Dosbarth
Gweithiol**



Theatr Gwaun

Fel rhan o raglen drwy gydol y flwyddyn Theatr Gwaun o ffilmiau a rhaglenni dogfen annibynnol, rhyngwladol a phrif ffrwd y DU, roeddent yn rhedeg dau edefyn newydd. Aethant yn 'ronynnog' gyda data'r gynulleidfa a chysylltiadau estynedig rhagweithiol â'u cymuned leol, gan gynnwys sesiynau ar-lein ac yn Neuadd Farchnad Abergwaun.

Fe wnaethant ddysgu mwy am anghenion eu cynulleidfaoedd trwy ddangosiadau ar amseroedd dydd newydd a 'sgyrsiau ymadael'. Roeddent yn canolbwyntio'n benodol ar grwpiau oedran hŷn, siaradwyr Cymraeg a phobl ifanc 25 oed ac iau - gan gynnwys sesiynau Clwb Plant â chymhorthdal lle roeddent hyd yn oed yn nodi cynnydd yn eu cynulleidfa gyfartalog.


Edrychwch ar eu hastudiaeth achos yma.

"Rwyf wedi bod yn aelod o Gymdeithas Ffilm y Fenni ers tua 15 mis. Mae'n sefydliad gwych, wedi'i redeg yn dda, yn groesawgar iawn, maent yn rhoi ffilmiau amrywiol ac o ansawdd uchel, y mae llawer ohonynt yn cynnig ffenestr i ddiwylliannau amrywiol a doeddw'n i ddim wedi clywed amdanynt o'r blaen. Mae'r nodiadau sy'n cyd-fynd â'r ffilmiau yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol. Mae'n darparu mynediad at ddiwylliant mewn ardal lle mae cyfleoedd tebyg yn brin."




**Aelod Cymdeithas
Ffilm Y Fenni**

Gwnaethwpyd yng Nghymru wedi'i gefnogi



Sbotolau: The Almond and the Seahorse

Buom yn gweithio gyda'r cwmni cynhyrchu Mad as Birds a'r dosbarthwr Picnik Entertainment, i gefnogi rhyddhau theatrig y ffilm. Datblygwyd cyfres o asedau i hybu ymwybyddiaeth y gynulleidfa gan gynnwys erthygl ar wleidyddiaeth anableded ar y sgrin gydag awdur y ffilm Kaite O'Reilly i Buzz. Gwnaethom hefyd greu pecyn cymorth ar gyfer arddangoswyr sy'n cynnwys adolygiadau ffilm ac awgrymiadau ar gyfer rhaglennu cyflenwol. Fe wnaethom gyfweld â'r Cyfarwyddwr Celyn Jones, gan greu podlediad sain a fideo, ynghyd â chyflwyniad ar gyfer defnydd sinema ac ar-lein a golygiad o glipiau i greu ymgyrch cyfryngau cymdeithasol.



Sylw Aelodau

Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gŵyl Arswyd Ryngwladol Abertoir

Mae Abertoir yn ŵyl genre boblogaidd a bywiog a ddathlodd ei 18fed blwyddyn ar draws chwe diwrnod llawn yn 2023. Gyda chynulleidfaoedd yn hanu o'r DU a thu hwnt, roedd y rhaglen yn cynnwys dangosiad ysblennydd oddi ar y safle o Blade yng nghlwb nos Pier Pressure, digwyddiadau byw rhyngweithiol fel Wicker Man a séance mewn cynhwysydd llongau. Hefyd, fe wnaethant sgrinio dros 30 o ffilmiau, ffilmiau byr, sgysiau, ffilm holi ac ateb gwneuthurwr ffilm, a chyfleoedd i gynulleidfaoedd gwrdd â thalent allweddol o'r diwydiant ffilm. Fe wnaethon nhw greu ffurf rithwir hygyrch, fyrrach o'r ŵyl a gynhaliwyd ar yr un pryd, gyda chapsiynau llawn. Roedd eu rhaglen fentora newydd hefyd yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc weithio tuag at fod y genhedlaeth nesaf o raglenwyr a threfnwyr yr ŵyl.



Cynulleidfaoedd Ifanc: CellB

Nod y prosiect 'Cell B Good To Me' oedd darparu profiad sinematig modern a chanolfan ar gyfer adloniant, gyda naws dinas fodern i'r gymuned. Yn eu cenhadaeth i ddod â ffilmiau byd ac annibynnol i gynulleidfaoedd Blaenau roedd eu rhaglen yn cynnwys dangosiadau Youth PicZ dan arweiniad 6 o bobl ifanc 12-16 oed, clwb ffilmiau teuluol, fforwm pensiynwyr a hyfforddiant ar gyfer eu pobl ifanc creadigol Clwb Clinec ifanc.

Cyfarwyddwr Cellb, Rhys Roberts, sy'n sôn am yr effaith y mae wedi ei gael yn y gymuned yn eu hastudiaeth achos fideo yma.





Delwedd: The Magic Lantern, Tywyn

Sbotolau: Hyrwyddwr Economaidd Gymdeithasol

Mae Linnea Pettersson, Pencampwr Economaidd Gymdeithasol BFI FAN, wedi bod yn brysur yn ymchwilio i syniadau eleni ynghylch thema cynulleidfaoedd dosbarth gweithiol, yn ogystal â mesurau cefnogol i ymgysylltu â chynulleidfaoedd ar incwm is.

Mae hi wedi llunio adnodd newydd 'Lleihau Rhwystrau Cymdeithasol-Economaidd', a fydd yn cael ei ddiweddarau'n fisol gyda gwybodaeth am docynnau, cyllid a mwy.

Mae TAPE Community Music and Film wedi bod yn brysur yn sefydlu menter sinema gymunedol newydd yng Ngogledd Cymru. Gan weithio gyda chyfranogwyr y Clwb Cyfryngau i gyd-greu'r fenter, darparwyd 6 dangosiad cychwynnol yn Llanrwst, gyda gweithdai animeiddio, sesiwn holi ac ateb a chyflwyniadau.

Maen nhw'n gweithio gyda Mencap Môn yn Ynys Môn i sefydlu'r ail safle ac maen nhw mewn trafodaethau cychwynnol gyda grwpiau yn Llandudno a Llanfairfechan. Ers i'r prosiect ddechrau, mae safleoedd cymunedol newydd yn Nhrefriw a Biwmares hefyd wedi elwa o gyngor a chefnogaeth.

Sbotolau: Sinema Cymdogaeth

Cefnogaeth Aelodau

- 14 x bwrsariaethau,
- Rydym wedi bod yn brysur (o leiaf!) 756 o weithiau!
- Ychwanegwyd 117 o ffilmiau i'r ystafell rhagolwg
- 1 x Digwyddiad hyfforddi Hyb Helo
- 1 x Diwrnod rhagolwg ffilm Cymraeg
- 4 x Fforwm Ffilm - Rhaglennu chwarterol yn dod at ei gilydd
- 1 x rhaglen Archif Pen Llyn ac Eifionydd
- 3 x Astudiaethau Achos Fideo wedi'u cyhoeddi
- 12 adnodd gwe wedi'u llwytho i fyny gan gynnwys Cyfeiriadur Mynediad a Ffilm BFI FAN ar gyfer teuluoedd a chynulleidfaoedd ifanc,



Sbotolau: Sgiliau

Mynychodd aelodau Sgiliau ddigwyddiadau ledled y DU o Ddiwrnodau Sgrinio'r ICO, i gynhadledd sinema'r UKCA, yn ogystal â chymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi fel Cynllunio Busnes gyda'r ICO a Mentora Amgylcheddol gyda Julies Bicycle. Yn Cellb, buont yn gweithio gydag ymgynghorydd i ddatblygu cynlluniau codi arian strategol gyda'r nod o hyfforddi'r gymuned i gymryd rhan weithredol wrth redeg sinema, gan ei chadw ar agor ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mwy o wybodaeth:

Darganfyddwch fwy am ein holl brosiectau [yma](#).

Gwybodaeth gyswilt:



Hana Lewis

Rheolwraig Strategol:
02920 353 740
hana@filmhubwales.org



Lisa Nesbitt

Swyddog Datblygu:
02920 311 067
lisa@filmhubwales.org



Holly Dennison

Swyddog Marchnata ac
Allgymorth: 02920 311 057
holly@filmhubwales.org